



Canllawiau ar Sut i Wahodd Côr Aloud

Diolch am eich diddordeb mewn gwahodd Côr Aloud (Only Boys Aloud, Only Girls Aloud, Only Kids Aloud neu Academi Only Boys Aloud) i fod yn rhan o'ch digwyddiad.

Cyn llenwi'r ffurflen wahodd isod, darllenwch y canllawiau canlynol i sicrhau bod eich digwyddiad yn bodloni ein meini prawf:

- Ffi Perfformio:** Mae Only Boys Aloud, Only Girls Aloud ac Only Kids Aloud yn rhan o Elusen Aloud. Rydym yn codi arian er mwyn cynnal bodolaeth yr elusen ac ni allwn sybsideiddio digwyddiadau lleol. Mae ffi perfformio ar gael ar gais. **Nid yw offer sain, hebryngwyr, ffioedd arweinydd a chostau teithio wedi'u cynnwys yn y ffi. Gall y rhain fod am gost ychwanegol. Bydd pob cais yn cael ei ystyried a'i gostio'n unigol.**
- Rhybudd:** Dylid gwneud ceisiadau am berfformiadau **o leiaf DRI MIS** cyn dyddiad y perfformiad.
- Dyddiadau:** Oherwydd y logisteg sy'n gysylltiedig â gweithio gyda nifer fawr o blant oedran ysgol ar draws ardal ddaearyddol eang, dim ond nifer gyfyngedig o ddigwyddiadau y gall corau Aloud ymrwymo iddyn nhw bob blwyddyn. Mae'r rhan fwyaf o gyfranogwyr Aloud yn yr ysgol neu'r coleg. Mae'n well gennym berfformiadau ar benwythnosau. Nid oes perfformiad yn bosibl yn ystod oriau ysgol – mae sicrhau nad yw gweithgareddau Aloud yn effeithio ar addysg y cyfranogwyr yn bwysig iawn.
- Digwyddiadau preifat** Nid yw Aloud yn gallu darparu perfformiad ar gyfer digwyddiad preifat unigolyn (gan gynnwys partïon, priodasau ac angladdau) gan nad yw'r mathau hyn o berfformiadau yn bodloni'r meini prawf sydd wedi'u nodi isod. Yn anffodus, byddem yn gwrthod y ceisiadau hyn yn awtomatig.
- Repertoire** Mae corau Aloud yn cyflwyno rhaglenni o hyd at uchafswm o 30 munud o gerddoriaeth. Mae'r rhaglen a hyd y rhaglen yn ôl disgrisiwn y Cyfarwyddwr Creadigol.
- Trwyddedau** Yn dibynnu ar natur y digwyddiad, mae'n aml yn angenrheidiol i hyrwyddwr y digwyddiad gael trwydded perfformio unigol gan eu hawdurdod lleol er mwyn cymryd rhan mewn perfformiad OBA. Mae hyn yn berthnasol wrth weithio gyda chyfranogwyr 16 oed ac iau. Yn yr achos hwn, bydd Aloud yn prosesu'r ceisiadau ar ran hyrwyddwyr digwyddiadau (yn amodol ar gytundeb yr awdurdodau perthnasol). Fodd bynnag, byddwch yn ymwybodol, fel trefnydd a hyrwyddwr y digwyddiad, y bydd gofyn i chi:
- Lenwi a llofnodi rhannau perthnasol o'r ffurflen gais am drwydded
 - Meddu ar Bolisi Amddiffyn Plant cyfredol a fydd yn cael ei rannu â'r Awdurdod Lleol perthnasol.
 - Darparu Aseiad Risg o'r digwyddiad fel rhan o'r cais am drwydded.
- Cyfleusterau** Rhaid i'r lleoliad perfformio fod â digon o leoedd ystafell wisgo a chyfleusterau toiled digonol i ddarparu ar gyfer nifer y cantorion a'r staff ategol (hebryngwyr, arweinydd, staff Aloud fel y bo'n briodol). Bydd pa mor hygyrch yw'r lleoliad, y trefniadau parcio a pha mor briodol ydyw hefyd yn cael eu hystyried.

Polisi Rhaglennu

Mae Elusen Aloud yn bodoli i annog pobl ifanc o bob cwr o Gymru i fynd ati i gydganu mewn grŵp. Mae hyn nid yn unig yn cefnogi traddodiad canu corawl yng Nghymru ond yn ysbrydoli diwylliant o ddyhead a hunanwerth, gan gyfoethogi bywydau pob aelod unigol yn ogystal â'u cymunedau a thirwedd ddiwylliannol ehangach Cymru.

O ystyried y nifer gyfyngedig o ddigwyddiadau y gallwn ymrwymo iddyn nhw, rydym yn benodol iawn am *natur* y digwyddiadau y mae cyfranogwyr Aloud yn rhan ohonyn nhw.

Rydym yn defnyddio'r canllawiau canlynol fel sail wrth ystyried a ddylid cefnogi digwyddiad lleol:

- A yw'r digwyddiad o fudd i aelodau'r côr eu hunain?
- A fydd y cyfle yn cyfrannu at eu datblygiad fel unigolion ac fel perfformwyr?
- A yw'r digwyddiad o fudd i'r sefydliad?
- A fydd y perfformiad yn gwella enw/proffil Aloud mewn ffordd gadarnhaol, a allai arwain at gyfleoedd eraill?
- A yw'r digwyddiad o fudd i'r cymunedau y mae aelodau'r côr yn byw ynddyn nhw?
- A fydd yn cael ei gynnal yn agos at un o gorau presennol Aloud?
- A fydd yn annog hyder yn yr ardal honno a balchder lleol?

Wrth wneud cais i Only Boys Aloud gymryd rhan yn eich digwyddiad, efallai y byddan nhw'n perfformio fel eu côr(au) lleol ar wahân neu fel cyfuniad o gorau lleol. Nid yw unigolion neu grwpiau llai yn cynrychioli brand Aloud.

Bydd unrhyw gôr Aloud sy'n perfformio mewn digwyddiad codi arian sydd o fudd i elusen/elusennau eraill yn gwneud hynny yn ôl disgrisiwn Aloud.

Nodwch nad yw corau Aloud yn darparu canu cefndirol nac adloniant ar ôl bwyta.

Eich Cais i Wahodd Côr

Rydym yn ffodus iawn i dderbyn llawer o geisiadau i berfformio. Mae hyn yn golygu mai dim ond cyfran fach o'r digwyddiadau y cawn ein gwahodd i gymryd rhan ynddyn nhw y gallwn eu cefnogi.

Y tîm rheoli fydd yn penderfynu a yw Côr Aloud yn derbyn gwahoddiad a bydd unrhyw benderfyniad sy'n cael ei wneud yn derfynol.

Wedi darllen y nodiadau a'r canllawiau uchod, os hoffech fwrw ymlaen i wahodd côr Aloud i berfformio yn eich digwyddiad, llenwch y ffurflen gais ar ein gwefan. Bydd eich cais yn ein cyrraedd yn awtomatig a byddwn mewn cyswllt yn fuan.

Diolch am eich diddordeb ac am gefnogi Elusen Aloud.